



P

erlau mewn Perygl LIFE+GB – Afon Eden, Cymru

Pysgota am glochidia

Disgrifiwyd gylch bywyd y fisglen berlog yn y rhifyn diwethaf ac ym mis Mawrth 2014 aethom i'r Afon Eden i chwilio am glochidia, sef misglod microsgopig sydd yn byw ar dagellau'r pysgod am 9 mis. Fe rwydwyd 73 o eogiaid a brithyll mewn 100m o'r afon a gwelwyd fod 8% ohonynt yn cario glochidia. Mae'n fuddiol gwybod bod y misglod yn ceisio magu yn yr afon Eden ond mae llawer o waith angen ei wneud i sicrhau eu bod yn goroesi.



Os edrychwch yn fanwl ar y llun ar y dde fe welwch smotiau gwyn bychain ar dagell y pysgodyn. Dyma'r glochidia. Rydym yn disgwyl iddynt syrthio oddi ar y tagellau i'r gro'r afon gyda'r newid i dymor yr haf oddeutu mis Mehefin. Dim ond 4 ym mhob miliwn o'r glochidia hyn sy'n goroesi i fod yn oedolion.

Perlau yn y dosbarth

Ar y 5ed o Chwefror ymwelwyd ag Ysgol Bro Hedd Wyn. Cafwyd prynhawn dymunol yng nghwmni 16 o ddisgyblion blwyddyn 3 a 4. Fe aethom a 40 o wyau eogiaid i'r ysgol a bu i'r disgyblion ofalu amdanynt. Fe ddeorwyd y wyau yn ystod y tywydd garw. Mae'r eogiaid bellach yn cael eu gofal yn y ddeorfa ym Maerdy ac rydym yn edrych ymlaen at gael mynd a'r plant allan i ryddhau'r pysgod bychain ym mis Mai ac i ymgymryd â gwaith maes.



Y disgyblion yn yr ystafell ddosbarth.

Diwrnod Gwaith Maes.

Mae'n wyddys fod planhigfa Brynteg wedi ac yn parhau i gael effaith negyddol ar yr Afon Eden. Gall gweithredoedd coedwigaeth gyflwyno lefelau dyrchafedig o gemegau megis ffosffad sy'n gwneud yr amgylchedd mewn-afonol yn anaddas ar gyfer misglod perlog. Yma mae nifer o goed conwydd wedi adfywio yn anfwriadol ac ar y 23ain o Ebrill rydym yn cynnal diwrnod gwaith maes mewn partneriaeth â Chymdeithas Eryri. Mae croeso i unrhyw un ymuno gyda ni yng nghoedwig Brynteg. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Owain Thomas (CE) ar 01286 685498



P

earls in Peril LIFE+GB – Afon Eden, Wales

Fishing for glochidia

The mussel's life cycle was explained in the last issue. A survey of glochidia (microscopic mussels) was conducted in March. These tiny mussels winter on the gills of salmon or trout for roughly 9 months. A total of 73 fish were caught in a 100m stretch of river and 8% were found to carry glochidia. It is reassuring to know that the Eden mussels are trying to reproduce, but there is a need to implement actions in order to secure a future for them.



Can you spot the white dots on the fish gills on the right photo? Well these are the glochidia. We expect them to fall off into the river bed as the summer advances. Even in healthy populations only 4 in each million will survive to be adults.

Perlau yn y dosbarth

On the 5th of February the 'Pearls in the Classroom' programme visited Bro Hedd Wyn School. 16 pupils of year 3 and 4 took part in the programme. PIP supplied the school with a tank and 40 salmon eggs. These eggs hatched during the stormy weather. The fish are currently being cared for at the hatchery at Maerdy and we are looking forward to having a fieldwork day in May to look at the river ecosystem and to release the young salmon.



The pupils during the classroom session.

WorkDay – Brynteg Forestry Block

It is known that the Brynteg plantation has, and continues to have, a negative effect on the catchment's water quality. Forestry operations can introduce elevated levels of chemicals such as phosphates that make the river habitat less suitable for pearl mussels. The conifers have now been harvested but there is some unintended regeneration on site. On the 23rd of April we are holding a workday in partnership with the Snowdonia Society. Anybody is welcome to attend the fieldwork day in Brynteg – for more information contact Owain Thomas (SS) on 01286 685498.